OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2544 (Cy.206)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*17 Medi 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*21 Medi 2009*
Yn dod i rym - -	*12 Hydref 2009*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 342(2), (4) a (5) ac adran 569 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), a chan adran 21(5) a (6), adran 138(7) ac (8), adran 72 ac adran 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**), a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 12(3), adran 19(3), adran 34(5), adran 35(4) a (5), adran 36(4) a (5), adran 136(c), adran 157(1), adran 168(1) a (2), adran 210(7) ac adran 214(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002(**3**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 12 Hydref 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1996 p.56. Amnewidiwyd adran 342 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), adran 140(1), Atodlen 30, paragraff 82.

(**2**) 1998 p.31. Diwygiwyd adran 72 gan Ddeddf Addysg 2002 (p.32) ond nid yw'r diwygiad yn berthnasol. Diwygiwyd adran 138 gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40), adran 175, Atodlen 17, paragraff 3(1) a (4); gwnaed diwygiadau eraill i adran 138 gan y Ddeddf honno, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol. Gwnaed diwygiadau hefyd i adran 138 gan Ddeddf Addysg 2002 (p.32) a chan Ddeddf Addysg 2005 (p.18) ond nid yw'r diwygiadau yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2002 p.32. Diwygiwyd adran 157 gan adran 47(1) a (2) o Ddeddf Gofal Plant 2006 (p.21) a Deddf Addysg a Sgiliau 2008 (p.25), adran 169, Atodlen 1, Rhan 1, paragraffau 13 ac 16 ac Atodlen 2. Diwygir adran 210 gan adran 21(1), (3)(a) ac (c)(i) a (ii) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Gwneir diwygiadau pellach i adran 210, gan y Mesur hwnnw a chan Ddeddf Gofal Plant 2006 (p.21) ond nid oes yr un o'r diwygiadau hynny yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

Diwygio Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig) 1994

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig) 1994(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl is-baragraff (b), mewnosoder—

"(ba) a direction under section 142(8) of the Education Act 2002(**5**);"; a

(b) ar ôl paragraff (1), mewnosoder—

"(1A) The Welsh Ministers may withdraw their approval for a school on the ground that, in the case of that school, it has employed a person who is barred from regulated activity relating to children in accordance with section 3(2) of the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006(**6**).".

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cyrff Sefydledig) (Cymru) 2001

3.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Cyrff Sefydledig) (Cymru) 2001(**7**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 5 o Atodlen 2—

(a) yn is-baragraff (1), ar ôl "cyfyngir ar eu cyflogi", mewnosoder ", neu pan yw'n destun cyfarwyddyd o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002(**8**), neu wedi ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant yn unol ag adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**9**).".

Diwygio Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

4.—(1) Diwygir Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003(**10**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 yn y diffiniad o "tystysgrif cofnod troseddol briodol"—

(a) ar ôl "adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997" mewnosoder "sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd mewn perthynas â phlant o fewn yr ystyr a roddir i "*suitability information relating to children*" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno";

(b) ar ôl "adran 113A o Ddeddf yr Heddlu 1997" mewnosoder "sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd mewn perthynas â phlant o fewn yr ystyr a roddir i "*suitability information relating to children*" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno"; ac

(c) hepgorer y geiriau "ar yr amod, yn y ddau achos, pan fo'r person yn dal swydd a grybwyllir yn adran 113C(5) o Ddeddf yr Heddlu 1997, fod y dystysgrif hefyd yn cynnwys yr wybodaeth a bennir yn adran 113C(1) o'r Ddeddf honno;".

(3) Yn yr Atodlen, yn is-baragraff (d) o baragraff 4, yn lle'r geiriau "yn gwneud gwaith" rhodder "wedi ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant yn unol ag adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**11**) neu'n gwneud gwaith,".

(**4**) O.S. 1994/652. Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu dirymu i'r graddau y maent yn gymwys i Loegr ond yn parhau mewn grym i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

(**5**) 2002 p.32; diddymir adran 142 gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p.47) ac Atodlen 10 i'r Ddeddf honno a bwriedir i'r diddymiad ddod i rym ar 12 Hydref 2009.

(**6**) 2006 p.47.

(**7**) O.S. 2001/2709 (Cy.228).

(**8**) 2002 p.32; diddymir adran 142 gan adran 63(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p.47) ac Atodlen 10 i'r Ddeddf honno a bwriedir i'r diddymiad ddod i rym ar 12 Hydref 2009.

(**9**) 2006 p.47.

(**10**) O.S. 2003/3234 (Cy.314), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/947 (Cy.81), O.S. 2005/2929 (Cy.214).

(**11**) 2006 p.47. Mae O.S. 2009/1797 yn pennu, at ddibenion adran 3(2)(b), bod y rhestr a gynhelir o dan Erthygl 6(1)(a) o Orchymyn Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2007 (O.S. 2007/1351 (G.I. 11)) (h.y. y rhestr wahardd ar gyfer plant yng Ngogledd Iwerddon) yn rhestr sy'n cyfateb i'r rhestr wahardd ar gyfer plant a sefydlwyd ac a gynhelir o dan adran 2(1)(a) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.

Diwygio Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003

5.—(1) Diwygir Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003(**12**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) yn y diffiniad o "tystysgrif cofnod troseddol briodol"—

(a) ar ôl "adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997" mewnosoder "sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd mewn perthynas â phlant o fewn yr ystyr a roddir i "*suitability information relating to children*" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno";

(b) ar ôl "adran 113A o Ddeddf yr Heddlu 1997" mewnosoder "sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd mewn perthynas â phlant o fewn yr ystyr a roddir i "*suitability information relating to children*" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno"; ac

(c) hepgorer y geiriau "ar yr amod, yn y ddau achos, pan fo'r person yn dal swydd a grybwyllir yn adran 113C(5) o Ddeddf yr Heddlu 1997, fod y dystysgrif hefyd yn cynnwys yr wybodaeth a bennir yn adran 113C(1) o'r Ddeddf honno;".

(3) Yn lle paragraff (2) o reoliad 2, rhodder—

"(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau at berson a gyflogir mewn ysgol yn gyfeiriad at berson—

(a) sy'n darparu addysg—

(i) mewn ysgol;

(ii) mewn sefydliad addysg bellach;

(iii) o dan gontract cyflogaeth neu gontract ar gyfer gwasanaethau pan fo'r parti arall yn y contract yn awdurdod addysg lleol neu'n berson sy'n arfer swyddogaeth ynglŷn â darparu addysg ar ran awdurdod addysg lleol;

(b) sy'n cymryd rhan mewn rheoli ysgol annibynnol; neu

(c) sy'n ymgymryd â gwaith—

(i) sy'n dod â'r person hwnnw i gysylltiad yn rheolaidd â phlant, a

(ii) a gyflawnir ar gais neu gyda chydsyniad cyflogwr perthnasol (pa un ai dan gontract ai peidio).

(3) At ddibenion paragraff (2), ystyr "cyflogwr perthnasol" ("*relevant employer*") yw—

(a) awdurdod addysg lleol;

(b) person sy'n arfer swyddogaeth ynglŷn â darparu addysg ar ran awdurdod addysg lleol;

(c) perchennog ysgol; neu

(ch) corff llywodraethu sefydliad addysg bellach.".

Diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

6. Yn Atodlen 5 i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005(**13**)—

(a) ar ôl is-baragraff (b) o baragraff 9, mewnosoder—

"(ba) wedi ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant yn unol ag adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (**14**);

(**12**) O.S 2003/3230 (Cy.310), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/947 (Cy.81).
(**13**) O.S. 2005/2914 (Cy.211), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3200 (Cy.236), O.S. 2006/873 (Cy.81), ac O.S. 2007/944 (Cy.80).
(**14**) 2006 p.47.